**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 20 Gorffennaf 2021.**

**Presennol:** Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, William Victor Owen a Sharon Parry.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, Beryl Salisbury a Einir Thomas.

2. **Datganiad o ddiddordeb -** dim.

3. **Cofnodion cyfarfod 15 Mehefin 2021 -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Gwilym O.Jones.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Cae Chwarae
Nodwyd fod MacVenture Play Ltd am osod y swing basged ar 22.7.21, roedd Cyng. Gwilym Jones am eu cyfarfod i ddangos iddynt ble i'w rhoi. Gosodwyd yr arwyddion newydd gan Cyng. Dyfed Williams ond byddai'n rhaid aros i'r plant ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi cyn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw arall.

Roedd Kenton Jones yn dal heb osod y tŷ chwarae a'r meinciau coed a addawyd.

4.2 Llochesi fws
Dywedodd Cyng. William Victor Owen ei fod wedi clirio cymaint ag y gallai o amgylch y llochesi, ond roedd canghennau coed angen eu torri wrth y lloches ar Ffordd Cymyran a mwy o fieri ac ati wrth y lloches garreg yng Nghaergeiliog. Dywedodd Cyng. Furlong y byddai'n cael golwg ar y rhain.

4.3 Llwybrau
Roedd GMS Garden Services wedi torri'r llwybrau i gyd. Cytunwyd y byddai Cyng. Sian Jones a Sharon Parry yn mynd draw i gael golwg arall ar lwybr 15 (drwy Grugor Bach).

4.4 Hysbysfwrdd
Adroddwyd fod Cyng. Furlong wedi gosod yr hysbysfwrdd yn ardd y neuadd bentref, 'roedd hefyd wedi gwneud rhywfaint o dacluso a chwynnu o gwmpas yr adeilad.

4.5 Traffwll Solar Parc
Nodwyd y bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn cychwyn yn fuan a bod tîm y prosiect yn bwriadu cynnal arddangosfa gyhoeddus yn Neuadd Bentref Caergeiliog ar 1 Medi 2021.

4.6 Gwersylla Anghyfreithlon ar Draeth Cymyran
Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi rhoi gwybod i Fwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan nad oedd y Cyngor Cymuned o blaid gosod giât wedi ei chloi ar y lôn i draeth Cymyran. Roedd yr Aelodau'n dal i fod yn bendant y dylai trigolion lleol barhau i gael mynediad digyfyngiad



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.

i'r traeth. Nodwyd hefyd bod Bwrdd Gofalwyr wedi peidio â chynnwys unrhyw fanylion cyswllt ar eu harwyddion newydd. O ganlyniad roedd pob cwyn yn cael ei gyfeirio at glerc y Cyngor Cymuned.

Nodwyd bod y cyfeiriad e-bost newydd ar gyfer y Bwrdd Gofalwyr - clerc.trewan@outlook.com.

4.7 Problemau gyda pharcio a goryrru
Nodwyd fod yr A5 yn dawelach oherwydd gwyliau'r ysgol ond roedd angen mwy o drafodaethau gan y byddai'r Problemau yn saff o ddod yn ôl.

4.8 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

## 5. Materion Plwyfol

5.1 Adeilad y Sportsman **–** Mynegodd Cyng. Gwilym Jones ei bryderon am gyflwr yr adeilad a gofynnodd a allai'r clerc wneud ymholiadau am fwriad y perchennog.

5.2 Seddi Gwag **-** cytunwyd y dylid rhoi cynnig arall ar ddenu aelodau newydd.

## 6. Penderfyniadau Cynllunio

6.1 HHP/2021/147 **O'r Diwedd, Holyhead Road, Caergeiliog - cytunwyd**

## 7. Ceisiadau Cynllunio - dim

## 8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.6.2021 i 30.6.2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £22,701.41, Cyfrif Cadw £3,938.87

## 9. Taliadau i'w gwneud :

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog mis Mehefin | £243.61 | GMS Ground Services | £624 |
| Costau gweinyddu | £104.72 | MacVenture Play Ltd. | £4596 |

## 10. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

10.1 Sesiynau hyfforddiant o bell Un Llais Cymru.

10.2 Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - 22.9.2021

10.3 Diweddariad Brechiadau COVID-19 BIPBC

10.4 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - 21-07-21 -

10.5 Wefannau Cynghorau Cymuned - canllawiau.



Arwyddwyd ……………………………………………Cadeirydd.

10.6 Lansio ymgynghoriad 28 Mehefin 2021 - ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru.

**11. Adroddiadau Aelodau**

11.1 Cyng. Sharon Parry – dywedodd bod tyllau yn y lon wrth y gylchfan ar Gyffordd 4 yr A55.

11.2 Cyng. Gwilym Jones - Hysbysodd fod y Cyng. Sharon Parry wedi ei phenodi fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Tywyn.

11.3 Cyng. William Victor Owen - gwaeth y Cyngor yn ymwybodol o gais cynllunio enfawr ar dir Penmynydd, Caergeiliog, roedd y safle yn ffinio ar ffermydd yn ardal Cyngor Llanfair yn Neubwll a gallai gael effaith ar rai preswylwyr.

**12. Cyfarfod Nesaf - 21 Medi 2021**
Cytunwyd i gyfarfod yn neuadd y pentref os yw amgylchiadau'n caniatáu.



Arwyddwyd …………………………………………Cadeirydd.